**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**2 Mehefin 2014**

**AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I gyflwyno'r amlinelliad o'r archwiliad ariannol blynyddol i'r Aelodau.

## Cefndir

2 Paratoir yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol yn flynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Awdurdod o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2013-14.

3 O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol - KPMG sydd wedi ei benodi ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Gwybodaeth

4 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio ac ardystio cyfrifon yr Awdurdod, i sicrhau eu bod:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol; ac
- wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

5 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## Argymhelliad

6 Argymhellir fod Aelodau yn nodi'r amlinelliad o'r archwiliad ariannol blynyddol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Awdurdod Tân Gogledd Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** NWFRSA2014

**Drafft yw'r ddogfen hon tra bo trafodaethau pellach â'r corff a archwilir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw cynnwys y drafft hwn wedi'i wirio yn llawn ac ni ddylid ei ddosbarthu y tu hwnt i'r rhai yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru a chanddynt angen busnes i gael mynediad ato.**

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

I'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golledion yr aed iddynt gan unrhyw aelod, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti o ganlyniad i ddefnyddio'r ddogfen hon.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol.
Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Paratowyd y ddogfen hon gan KPMG LLP ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett.

DRAFT

# Cynnwys


Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

Cyflwyniad [x]

Archwiliad o ddatganiadau ariannol [x]

Archwiliad o'r defnydd o adnoddau [x]

Ardystio ceisiadau am grant a ffurflenni [x]

Gwaith arall a wnaed [x]

Rhaglen Reoliadol yr Archwilydd Cyffredinol [x]

Ffi, tîm archwilio ac amserlen [x]

Atodiadau

Rolau a chyfrifoldebau [x]


DRAFT

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Cyflwyniad

**1.** Paratowyd yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol hwn gan KPMG ar ran Anthony Barrett, yr Archwilydd Penodedig.

**2.** Fel eich archwilydd allanol fy nod yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Penodedig ac sy'n bodloni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio ac ardystio a yw eich datganiadau ariannol yn 'gywir a theg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau.

**3.** Diben yr amlinelliad hwn yw esbonio i chi:

- Dull fy nhîm archwilio o ran:
  - archwilio eich datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 gan gynnwys unrhyw risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol yn eich datganiadau ariannol a sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hwy;
  - asesu eich trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau.
- Yr amserlen a gynlluniwyd, y ffioedd a thîm yr archwiliad.
- Cwmpas yr archwiliad, ein priod gyfrifoldebau a sut rydym yn sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd yn ein gwaith.

**4.** Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar:

- A yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun cywir a theg' o alldro a sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) . Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyfrifon:
  – yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a achoswyd gan dwyll neu wallau;
  – yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill; a
  – yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn y Rhagair Esboniadol â'r datganiadau ariannol.


**6.** Rhaid i fy adroddiad hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013-14 yn cydymffurfio â'r gofynion.

DRAFT

## Dull archwilio

**7.** Mae gwaith archwilio fy nhîm yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i asesu risg a chael tystiolaeth a sicrwydd archwilio ac mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'ch busnes. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi fy nhîm i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol tra'n rhoi sicrwydd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae ein dull archwilio yn cynnwys tri cham fel y nodwyd yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Ein dull archwilio




**8.** Nodir y gwaith a wneir ym mhob un o'r tri maes hyn yn fanylach yn Arddangosyn 2.

**9.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd pendant bod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir a theg, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a gweithredu'r archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig, hynny yw, y rhai a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Bydd y lefelau lle rwyf yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**10.** At ddibenion adrodd, byddwn yn trin unrhyw gamddatganiadau sy'n is na lefel 'ddibwys' (yr isaf o bump y cant o berthnasedd neu £100,000) fel rhai nad oes yn rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddwn yn adrodd arnynt.

DRAFT

## Arddangosyn 2: Ein dull archwilio

### Cynllunio ac asesu risg

| Tasgau allweddol | Amcanion | Allbwn |
|---|---|---|
| Trafodaethau â swyddogion/rhanddeiliaid allweddol<br>Adolygu dogfennau allweddol<br>Adolygiad cychwynnol o Archwilio Mewnol | I ddeall:<br>• Datblygiadau mewnol ac allanol<br>• Amgylchedd archwilio<br>• Datganiadau ariannol<br>• Amgylchedd rheoli<br>• Risgiau busnes ac archwilio | **Amlinelliad Archwilio Blynyddol** |

### Cael sicrwydd (gweithredu)

| Tasgau allweddol | Amcanion | Allbwn |
|---|---|---|
| Dogfennu systemau a rheolaethau<br>Profi rheolaethau allweddol<br>Profi manylion ar drafodion a balansau<br>Profi datgeliadau<br>Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Cael sicrwydd:<br>• Ynghylch y risgiau sylweddol a nodwyd<br>• Nad yw balansau, trafodion a datgeliadau yn cael eu cam-ddatgan yn sylweddol<br>• Nad yw trafodion yn afreolaidd<br>• Bod datganiadau ariannol yn cael eu paratoi'n briodol | **Cwblhau gwaith archwilio yn unol â'r cynllun** |

### Casglu a chyflwyno adroddiadau

| Tasgau allweddol | Amcanion | Allbwn |
|---|---|---|
| Gwerthuso canlyniadau gwaith archwilio<br>Ystyried effaith digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn | Nodi materion y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu neu reoli<br>Llunio barn ar ddatganiadau ariannol | Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol<br>**Tystysgrif a Barn Archwilio**<br>**Llythyr Archwilio Blynyddol** |

11. Wrth gynllunio fy ngwaith a chael dealltwriaeth o'r Awdurdod rwy'n ystyried yr amgylchedd rheoli gan gynnwys gweithgarwch Archwilio Mewnol i benderfynu ar effaith bosibl ei waith ar fy ngweithdrefnau a gynlluniwyd a gwerthuso i ba raddau rwy'n gallu dibynnu ar y gwaith hwnnw.

12. Fel rhan o'r broses gynllunio, rhoddodd fy staff ystyriaeth fanwl i'r wybodaeth y byddai ei hangen i ategu'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio. Bydd y ffioedd, ar ôl cytuno arnynt, yn tybio y bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu erbyn yr amserlenni y cytunwyd arnynt ac yn cyrraedd y safonau ansawdd yr ydym yn eu disgwyl. Fy mhrif ragdybiaethau eraill o ran pennu'r ffioedd amcangyfrifedig fydd:
   - bod y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi bod yn destun adolygu a dilysu gan y rheolwyr, i roi sicrwydd i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu bod yn 'gywir a theg';
   - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
   - bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol gennych ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Cynrychiolaeth a gyfeiriwyd ataf;
   - Bod yr adran Archwilio Mewnol wedi cwblhau ei rhaglen waith fel y bwriadwyd, a bod rheolwyr wedi cymryd yr holl gamau gweithredu adferol angenrheidiol ar faterion a allai fod wedi effeithio ar y cyfrifon ariannol.

## Risgiau a materion archwilio

### Risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu

13. Mae Arddangosyn 3 yn darparu gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan yr Awdurdod a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau rwyf wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio archwilio wreiddiol, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau gweithredu a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Efallai bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllunio archwilio heb eu trafod â swyddogion yn gyntaf a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Arddangosyn 3: Crynodeb o'r prif risgiau archwilio a'r ymatebion arfaethedig

| Risgiau | Cam a gynigir |
|---|---|
| **Rheoli risgiau amgylchedd** | |
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Yn sgîl y modd anrhagweladwy y gall diystyru o'r fath ddigwydd, mae'n cael ei weld fel risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodolrwydd cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarnau;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i fusnes arferol. |
| O ystyried yr amgylchedd economaidd presennol, mae pwysau sylweddol ar yr Awdurdod i leihau costau yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yn y dyfodol. Os nad yw gweithdrefnau cyllidebu a rhagweld yn gadarn, gallai hyn arwain at darfu ar ddarparu gwasanaethau ac atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei amcanion. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu'r broses ar gyfer pennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a thrafod gyda'r rheolwyr sut mae perfformiad yn erbyn y gyllideb yn cael ei fonitro;<br>• adolygu'r perfformiad yn erbyn y gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol a rhagamcanion ar gyfer 2014-15. |
| Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn Natganiadau Ariannol 2013-14, gan nodi'r trefniadau lefel uchel ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd a safonau ymddygiad. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r datganiad Llywodraethu Blynyddol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag arfer gorau ac yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod. |
| Mae'n ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Os nad oes gweithdrefnau priodol ar waith, mae'n ofynnol i mi nodi hyn yn fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith. |
| Cafodd Archwilwyr Mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer 2013-14 eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gall canlyniadau archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r adroddiadau a baratowyd gan yr archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud gwaith dilynol ar unrhyw feysydd a all effeithio ar y datganiadau ariannol. |

| Risgiau | Cam a gynigir |
|---|---|
| **Risgiau systemau ariannol** | |
| Er nad yw fy nhîm archwilio wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol i'r systemau ariannol a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn, gallai unrhyw wendid yn yr amgylchedd rheoli arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn dogfennu ac yn profi fel y bo'n briodol y gweithdrefnau sydd ar waith (megis cysoni cyfrifon) i sicrhau bod gwallau sylweddol yn cael eu canfod. |
| **Risgiau o ran paratoi'r cyfrifon** | |
| Mae'r tîm archwilio wedi parhau i weithio gyda'r ddau Awdurdod Tân arall yng Nghymru i baratoi templed cyfrifon a ddylai sicrhau mwy o gysondeb o ran cyflwyno adroddiadau ariannol tri Awdurdod Tân Cymru. | Mae fy nhîm archwilio wedi trafod newidiadau cyfrifyddu allweddol gyda'r Awdurdod Tân a byddwn yn adolygu'r templed cyfrifon yn unol â hynny. |
| Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhaid i'r Awdurdod gwblhau pecyn cyfuno i ategu cyfuno cyfrifon adnoddau'r sector cyhoeddus (Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan). | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio gyda'r tîm cyllid i sicrhau bod pecynnau archwilio Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gyflawn a bod unrhyw ddiweddariadau sy'n ofynnol i'r pecyn cyfuno fel rhan o'n gwaith archwilio'n cael eu gwneud yn brydlon. |
| **Risgiau datganiadau ariannol** | |
| Mae'r Awdurdod yn cyfranogi mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion lifrai a di-lifrai. Mae'r cyfrifyddu ar gyfer y cynlluniau hyn yn gymhleth gan gynyddu'r risg o wall neu hepgoriad yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu cyfrifyddu a datgelu'r cynlluniau pensiwn i sicrhau eu bod yn unol â'r gofynion IFRS perthnasol ac yn adolygu rhagdybiaethau actiwaraidd i sicrhau eu bod yn unol ag ystod rhagdybiaethau actiwari KPMG.<br>Profi'r cyfrifon terfynol yn seiliedig ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac adolygu'r datganiadau ariannol drafft. |

## Materion cyfrifyddu ac adrodd

**14.** Yn ogystal â'r risgiau archwilio sylweddol a nodwyd uchod, mae angen i mi hefyd ystyried unrhyw ofynion cyfrifyddu ariannol ac adrodd newydd sy'n effeithio ar fy nghyfrifoldebau.
Rwyf yn rhoi crynodeb o'r newidiadau cyfrifyddu ac adrodd mwy sylweddol sy'n berthnasol i 2013-14 yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: Newidiadau cyfrifyddu ac adrodd sylweddol ar gyfer 2013-14

| **Newidiadau cyfrifyddu ac adrodd** |
| --- |
| ***IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol***<br>Mae'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant wedi'i ddiwygio o ganlyniad i ddiwygiadau mis Mehefin 2011 i IAS 1 *Cyflwyno Datganiadau Ariannol* (lle y bo'n berthnasol i awdurdod) a diwygiadau i IAS 19 a wnaed ym mis Mehefin 2011 . Mae'r gofyniad i Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi gynnwys 'cost llog pensiynau a'r elw disgwyliedig ar asedau pensiynau' wedi'i ddisodli gan 'log net ar y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (ased)'. Mae Incwm Cyllid a Buddsoddi bellach hefyd yn cynnwys 'ail-fesur y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio net (ased) ar gyfer budd-daliadau hirdymor i gyflogeion a nodwyd yn unol ag adran 6.2'. |
| **IAS 19 *Buddiannau i Gyflogeion***<br>Mae Pennod 6 o'r cod yn cynnwys diwygiadau o ganlyniad i ddiwygiadau i IAS 19 *Buddiannau i Gyflogeion* ym mis Mehefin 2011:<br>diwygiadau i'r diffiniadau yn adran 6.1;<br>terminoleg wedi'i diweddaru, diwygiadau i'r gofynion nodi ac egluro'r gofynion datgelu yn adran 6.2;<br>diwygiadau i ofynion nodi adran 6.3 Terfynu Budd-daliadau ac egluro'r gofynion datgelu;<br>diwygiadau i ddosbarthu, nodi, mesur a datgelu gofynion yn adran 6.4 Budd-daliadau ar ôl Cyflogaeth. |

DRAFT

# Archwiliad o'r defnydd o adnoddau

I gyflawni fy nghyfrifoldebau ynglŷn â'r trefniadau mae'r Awdurdod wedi eu sefydlu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:

canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;

system rheolaeth fewnol yr Awdurdod, fel y'i nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fy adroddiad ar hynny;

canlyniadau gwaith a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystio hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion cyfateb data;

canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill lle maent yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau;

unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion na chwmpesir gan yr uchod, ac rwyf yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

# Gwaith arall a wnaed

**15.** Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol y corff a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am Awdurdod Tân Gogledd Cymru i ategu paratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

## Rhaglen Reoliadol yr Archwilydd Cyffredinol

**16.** Bydd dogfen ar wahân, Rhaglen Reoliadol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad, yn cael ei chyhoeddi gan nodi'r gwaith i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

# Ffi, tîm archwilio ac amserlen

## Ffî

**17.** Oherwydd gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, roedd angen i ni ddiwygio ein hymagwedd at bennu ffioedd. Mae'r ddeddf hon yn cyflwyno gofyniad sydd wedi'i ddiwygio ychydig bach o ran pennu ffioedd ar y Swyddfa Archwilio Cymru newydd ar gyfer ein holl waith archwilio pan ddaw ei darpariaethau i rym o 1 Ebrill 2014. Gan ragweld y gofyniad newydd hwn, roedd yn rhaid i ni gymryd cyngor cyfreithiol i egluro nifer o'i darpariaethau. Yng ngoleuni'r cyngor hwnnw, rydym wedi adolygu ein dyraniad costau a'n prosesau dosrannu i sicrhau y bydd ein proses o bennu ffioedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol newydd hyn wrth symud ymlaen. Yn anffodus cymerodd y broses hon lawer o amser. Mae'r ymarfer bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgynghori ar ei raddfeydd ffioedd, sy'n ystyried diwygiadau a wnaed yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Rhoddodd yr ymgynghoriad hwnnw wybodaeth newydd am y gofynion deddfwriaethol newydd.

**18.** Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2013-14 yw £34,500 (a TAW). Yn gyffredinol, mae ffi archwilio ariannol 2013-14 yn cynrychioli cynnydd chwyddiant o 3% yng nghyfanswm y ffioedd.

Mewn blynyddoedd blaenorol, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, rwyf yn cael nifer o ymholiadau a gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Bydd ychydig bach o amser yn cael ei gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r gwaith cyffredinol i reoli'r archwiliad.

Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sy'n ofynnol i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu'r cymysgedd sgiliau penodol sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn â'r Awdurdod, cyn gwneud y gwaith.

**19.** Ceir rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol a phennu ffioedd ar ein gwefan yn: www.wao.gov.uk/aboutus/4240.asp.

DRAFT

## Tîm archwilio

### Arddangosyn 7: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig | 029 2032 0500/ 012 4452 5970 | Anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Virginia Stevens | Arweinydd Ymgysylltu'r Archwilio Ariannol | 029 2046 8000 | Virginia.stevens@kpmg.co.uk |
| Victoria de Zouche | Rheolwr Archwilio | 029 2046 8000 | Victoria.dezouche@kpmg.co.uk |
| Emma Maidment | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 029 2046 8000 | Emma.maidment@kpmg.co.uk |

**20.** Gallaf gadarnhau bod pob aelod o fy nhîm yn annibynnol ar yr Awdurdod, ei swyddogion ac unrhyw gydbwyllgorau. Yn ogystal, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

**21.** Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbynnau eraill fel y cytunwyd arnynt, i'r Pwyllgor Archwilio gan gwmpasu meysydd gwaith a nodwyd yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

### Arddangosyn 8: Amserlen

| Canlyniadau arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol ar gyfer 2014** | Mawrth – Mai 2014 | Mehefin 2014 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>Barn ar Ddatganiadau Ariannol<br>Memorandwm Cyfrifon Ariannol<br>Cyfrifon Llywodraeth Gyfan | Awst – Medi 2014 | Medi 2014 |
| **Gwaith ar y Defnydd o Adnoddau** | Awst - Tachwedd 2014 | Tachwedd 2014 |
| **Llythyr Archwilio Blynyddol 2014** | Rhagfyr 2014 | Ionawr 2015 |
| **Amlinell o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2015** | Mawrth – Mai 2015 | Mai 2015 |

# Atodiad 1

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol hwn wedi'i baratoi i fodloni gofynion safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n darparu amlinelliad o'r gwaith archwilio ariannol sy'n ofynnol ar gyfer datganiadau ariannol 2013-14 i Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn nodi mai'r Archwilydd Cyffredinol fyd archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Deddf 2013 yn darparu trefniadau pontio lle mae penodi unigolyn fel archwilydd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd y cyfnod y gwnaed y penodiad ar ei gyfer (yn amodol ar unrhyw derfynu cynharach). Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi fy mhenodi yn archwilydd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

Fel yr Archwilydd Penodedig, mae'n ofynnol i mi o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon yr Awdurdod. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n berthnasol yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a nodir o dan y ddeddf, mae hyn yn golygu rhoi barn o ran a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun ynghylch y pethau hyn:

- bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
- bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
- bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;
- bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Awdurdod:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol a dogfennau cysylltiedig yr Awdurdod, i ofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.

Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio rhai hawliadau am grantiau a ffurflenni. Yr Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel un o asiantau'r Archwilydd Cyffredinol, fydd yn gwneud y gwaith archwilio sy'n ymwneud â'r hawliadau a'r ffurflenni hynny.

DRAFT

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

DRAFT

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk